Swansea University Open Access Policy

UK policy on access to publicly funded scholarly research has changed the UK research publication landscape significantly. While much remains for discussion, it is already known that the post-2014 REF mandates the deposit of Journal Article and Conference Proceedings in a publicly accessible repository. This policy encompasses those requirements while seeking to collect, disseminate and promote the scholarly output of the university's staff as widely as possible.

This Green Open Access Policy becomes a formal requirement from 1st March 2015 and requires researchers to deposit the full text of their research publications in the University's Research Information System (RIS) for onward publication to the University's publicly accessible research repository (Cronfa). (Note 1)

Wherever possible researchers will be expected to make all published research outputs available as Green Open Access, however, recognizing the still changing landscape, it is initially mandatory for journal articles and conference proceedings. (Note 2)

The University's Research Information System is an internal system to allow the university to collate and evaluate its research output, and will be used for the submission of research outputs and supporting documents to the REF exercise. Cronfa makes our researchers' work visible to the world, and is indexed by Google Scholar and other search engines. Publishing work in a research repository is a requirement for REF eligibility, can increase the academic and wider visibility of research, and promotes collaboration and citations.

The University Research Deposit Policy requires that:

1. The peer-reviewed final accepted version of a research output must be deposited in RIS immediately on acceptance for publication, together with any relevant embargo information.

2. Authors must use "Swansea University" within the research output when stating their address.

Help in using RIS and in meeting these criteria is available from the Library, including a RIS user guide (PDF). Contact iss-research@swansea.ac.uk for more information.

Links:

- Research Information System (login required)
- Cronfa
- HEFCW / HEFCE Open Access Policy.

Notes:

Note 1: RCUK funded projects can still apply for funding to pay gold open access, Article Processing Charges – see this page for further details.

Note 2: Full-text deposit is required by the REF eligibility criteria. Public availability is normally immediate, but reasonable embargo periods can be honoured. (Max 12 months STEM, 24 months arts and humanities) Under REF eligibility criteria, mandated output types will be ineligible for REF submission if the deposit and accessibility requirements are not met.

Polisi Mynediad Agored Prifysgol Abertawe

Mae polisi'r Deyrnas Unedig ynghylch ymchwil academaidd a ariennir gan gyllid cyhoeddus wedi newid sefyllfa cyhoeddi ymchwil yn y DU yn sylweddol. Er bod llawer i'w drafod o hyd, mae'n hysbys eisoes ei bod yn ofynnol, yn sgîl Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014, roi erthyglau a gyhoeddir mewn cyfnodolion a thrafodion cynadleddau i'w cadw mewn cronfa sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Mae'r polisi hwn yn cynnwys y gofynion hynny ac yn ceisio casglu, lledaenu a hyrwyddo gwaith academaidd staff y Brifysgol mor eang â phosib.

Mae'r Polisi Mynediad Agored Gwyrdd hwn yn ofyniad ffurfiol o 1 Mawrth 2015 ac mae'n ofynnol i ymchwilwyr gyflwyno testun llawn eu cyhoeddiadau ymchwil i System Gwybodaeth Ymchwil y Brifysgol i'w cyhoeddi yng nghronfa ymchwil y Brifysgol, sy'n hygyrch i'r cyhoedd, 'Cronfa'. (Nodyn 1)

Lle bynnag y bo modd, disgwylir i ymchwilwyr sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ymchwil ar gael ar sail Mynediad Agored Gwyrdd. Fodd bynnag, gan gydnabod bod y sefyllfa'n newid o hyd, mae'n orfodol, i ddechrau, ar gyfer erthyglau a gyhoeddir mewn cyfnodolion a thrafodion cynadleddau. (Nodyn 2)

Mae System Gwybodaeth Ymchwil y Brifysgol yn system fewnol i ganiatáu i'r Brifysgol goladu a gwerthuso ei gwaith ymchwil, a chaiff ei defnyddio i gyflwyno gwaith ymchwil a dogfennau ategol i ymarfer y Fframwaith. Mae 'Cronfa' yn sicrhau bod gwaith ein hymchwilwyr yn weladwy i'r byd a'i fod yn cael ei fynegrifo gan Google Scholar a pheiriannau chwilio eraill. Mae'n ofynnol cyhoeddi gwaith mewn cronfa ymchwil er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Fframwaith; mae'n gallu cynyddu proffil ymchwil yn y byd academaidd a'r byd ehangach ac mae'n hyrwyddo cydweithredu a dyfyniadau.

Yn ôl Polisi Cronfa Ymchwil y Brifysgol, mae'n ofynnol:

1. Cyflwyno fersiwn derfynol gwaith ymchwil sydd wedi'i adolygu a'i dderbyn gan gymheiriaid i'r System Gwybodaeth Ymchwil ar unwaith pan gaiff ei dderbyn i'w gyhoeddi, ynghyd ag unrhyw wybodaeth am embargo.

2. Mae'n rhaid i awduron ddefnyddio 'Prifysgol Abertawe' yn y gwaith ymchwil wrth nodi eu cyfeiriad.

Mae cymorth wrth ddefnyddio'r System Gwybodaeth Ymchwil a bodloni'r meini prawf hyn ar gael gan y Llyfrgell, gan gynnwys canllaw i ddefnyddio'r System (PDF). Cysylltwch ag iss-research@abertawe.ac.uk am ragor o wybodaeth.

Dolenni:

- Y System Gwybodaeth Ymchwil (angen mewngofnodi)
- Cronfa
- Polisi Mynediad Agored EFCW / HEFCE.

Nodiadau:

Nodyn 1: Gall prosiectau a ariennir gan Gynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig wneud cais am gyllid i dalu ffioedd prosesu erthygl mynediad agored aur - gweler y dudalen hon am ragor o fanylion.

Nodyn 2: Mae'n ofynnol cyflwyno'r testun llawn yn ôl meini prawf y Fframwaith. Mae'r gwaith ar gael i'r cyhoedd ar unwaith fel arfer, ond gellir parchu cyfnodau embargo rhesymol (12 mis ar y mywaf ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, 24 mis ar gyfer y celfyddydau a'r dyniaethau). Yn ôl meini prawf y Fframwaith, ni fydd y mathau o ymchwil y mae'n orfodol eu cyflwyno yn gymwys ar gyfer y Fframwaith os na fodlonir y meini prawf cyflwyno i'w cadw a hygyrchedd.